# Arolwg o agweddau rhieni tuag at frechiadau rheolaidd cyn ysgol 2025

## Nodau'r arolwg

- Casglu mewnwelediadau i agweddau, canfyddiadau ac ymwybyddiaeth rhieni/gofalwyr ynghylch brechiadau rheolaidd cyn ysgol (oedran 0-5).
- Archwilio rhwystrau a ffactorau sy'n hwyluso'r gwaith o wella'r nifer sy'n cael y brechlyn

***Cafwyd 237 o ymatebion***

## Dywedodd rhieni a gofalwyr...

- Dywedodd 49% o'r cyfranogwyr eu bod yn fodlon ar ddiogelwch brechiadau plant.
- Dywedodd 41% arall eu bod yn teimlo bod risg fach yn gysylltiedig â brechiadau plant.
- Dywedodd 84% o'r cyfranogwyr y byddent yn debygol o dderbyn cynnig am frechlyn brech yr ieir ar gyfer eu plentyn neu eu plant.
- Dywedodd 82% o'r rhieni/gofalwyr eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechlynnau yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Gwelodd, clywodd neu ddarllenodd 52% o'r cyfranogwyr wybodaeth am frechlynnau i blant ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Teimlai 72% o'r cyfranogwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad ynghylch unrhyw frechiadau a gynigiwyd i'w plentyn neu eu plant.
- Cytunodd 87% o rieni a gofalwyr ei bod hi'n hawdd trefnu apwyntiadau brechu.
- Roedd 94% o rieni a gofalwyr yn teimlo bod llid yr ymennydd yn 'ddifrifol iawn', tra bod 38% yn teimlo nad oedd brech yr ieir yn 'ddifrifol iawn'.

## Argymhellion

- Cefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd fel negeswyr y gellir ymddiried ynddynt
- Cryfhau cyfathrebu iechyd y cyhoedd ynghylch pwysigrwydd brechu
- Gwella mynediad at wybodaeth am ddiogelwch brechlynnau a sgil-effeithiau
- Gwella gwybodaeth ddigidol a mynediad at gofnodion brechu
- Gwella hyblygrwydd wrth archebu apwyntiadau a chael mynediad at wasanaethau
- Mynd i'r afael â gwybodaeth anghywir ac adeiladu ymddiriedaeth
- Paratoi yn gynnar ar gyfer cyflwyno brechlynnau newydd a newidiadau i amserlenni